**Ffurf 28**

**Ffurf datganiad gan ymgeisydd unigol ynghylch treuliau etholiad**

Erthygl 55(2) a (5)

**Etholiad i Senedd Cymru**

Etholiad yn etholaeth ………………………………………………………...

Dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad etholiad: …………………….……………

Enw'r ymgeisydd unigol: ……………………………………...……………

## Datganiad gan ymgeisydd unigol

Yr wyf i yn datgan ddifrifol ac yn ddiffuant fel a ganlyn:

1. Fi yw'r person a enwir uchod fel ymgeisydd unigol yn yr etholiad hwn [ac yr oeddwn yn asiant etholiad i mi fy hun]*

2. Yr wyf wedi edrych ar y ffurflen dreuliau etholiad [sydd ar fin cael ei danfon]* [a ddanfonwyd]* [gan fy asiant etholiad]* [gennyf i]* at y swyddog canlyniadau, y mae copi ohoni ynghlwm a chanddo'r marc……………………………**, a hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred y mae'n ffurflen gyflawn a chywir yn unol â gofynion y gyfraith.

3. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, mae'r holl dreuliau a ddangosir yn y ffurflen fel treuliau a dalwyd wedi eu talu [gan fy asiant etholiad]* [a/neu]* [gennyf fi]*, ac eithrio fel y nodir fel arall yn y ffurflen ynghylch treuliau etholiad.

4. Yr wyf yn deall nad yw'r gyfraith yn caniatáu talu unrhyw dreuliau etholiad sydd heb eu crybwyll yn y ffurflen hon, ac eithrio yn unol â gorchymyn llys.

* dileer fel y bo'n briodol

** rhowch y marc adnabod neu'r cyfeirnod a ddarperir ar y ffurflen ynghylch treuliau etholiad. Os na ddarperir marc o'r fath, cewch ychwanegu cyfeirnod at y copi sydd ynghlwm o'r ffurflen ynghylch treuliau etholiad ac ychwanegu'r cyfeirnod hwnnw yma. Cewch ddewis unrhyw beth, megis cyfuniad o rifau lythrennau sy'n lythrennau sy'n cyfeirio at yr etholiad neu'r ardal etholiadol.

*Nodyn 1: pan fydd asiant etholiad wedi newid, gellir cyflwyno amrywiadau addas yn y datganiad.*

*Nodyn 2: y ffurflen ynghylch treuliau etholiad yw'r ffurflen sy'n ofynnol gan erthygl 54 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025.*

Llofnod: ……………………………………

Dyddiad: ………………………………………….